CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
19 Ebrill 2022, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng A Williams, W Vaughan, C Jones, D Pritchard, C McGregor, G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Roberts, W Williams,D Rees (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng W Vaughan.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15.03.22. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng A Williams yn cynnig a Cyng W Vaughan yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Cydgodfan Bws, Talwrn** – Mae y lloches newydd wedi cael ei gosod.
4.2	**Damweiniau Sgwar Talwrn** – Cytunwyd i beidio â bwrw ymlaen â phrynu goleuadau sy'n fflachio ar hyn o bryd oherwydd unrhyw daliadau etholiad sydd ar y gweill.
4.3	***Carthffosiaeth Talwrn*** *– Ymateb Dwr Cymru: Diolch am eich e-bost isod am ein gorsaf bwmpio carthffosiaeth (SPS) yn Nhalwrn. Hoffwn esbonio ein hymchwiliadau diweddar a gobeithio y bydd fy ymateb yn ddefnyddiol i chi.* *Fel y gwyddoch, rydym wedi cynnal sawl ymchwiliad yn Nhalwrn, yn benodol gysylltiedig â digwyddiadau llifogydd allanol. Mae'r llifogydd hanesyddol i'r rhwydwaith oherwydd bod y garthffos fudr yn unig yn cael ei gorlifo, oherwydd ffynonellau eraill o lif yn mynd i mewn i'r garthffos yn ystod cyfnodau o law trwm neu hir. Rydym wedi gwneud gwaith yn y rhwydwaith lle canfuwyd llif o'r fath i helpu i leihau'r effaith, fodd bynnag, ni fydd hyn wedi datrys y llifogydd yn llwyr.* Llofnod…….Cadeirydd 23.08.22

O ran y gollyngiadau a grybwyllir yn eich e-bost, mae rhwydwaith carthffosydd y pentref yn mynd i'r orsaf bwmpio, sydd wedyn yn pwmpio i Langefni. Fel rhan o'r strwythur, mae ganddo orlif carthffosydd cyfun sydd wedi'i gynllunio i ollwng i'r ffos wrth ymyl yr SPS, yn ystod llifoedd uchel. Caniateir y gollyngiad hwn mewn rhai amgylchiadau. Mae'r safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd sydd hefyd yn cynnwys archwilio a glanhau'r ffos os oes angen.

Fel y gwelsom mewn sylw diweddar yn y wasg, gall asedau o'r fath fod yn broblematig ond maent yn ased hollbwysig i atal problemau ar y rhwydwaith carthffosydd a'r orsaf bwmpio. Maent yn lleihau'r risg o lifogydd allanol difrifol yn sylweddol yn y dalgylch, a hefyd llifogydd mewnol i gartrefi a busnesau pobl, ac rydym mewn cysylltiad cyson â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynghylch materion o'r fath.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn helpu i egluro ein safbwynt. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â mi ar 03300 413307 Est 50024. Rwyf ar gael fel arfer o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 4pm.

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru:
Mae gorsaf bwmpio Talwn ar fy radar i oherwydd y busines efo'r manhole wedi bod yn gorlifo a'r gwaith o edrych ar y garthffos gyda chamera CCTV.

Yn unol a fy neges i chi ym mis Chwefor, deallaf, mae'r gwaith CCTV wedi ei wneud a'r manhole wedi ei selio. Dylai hynny atal gorlif yn y fan honno. Ond a fuasai hyn yn achosi mwy o ddwr i gyrraedd i'r orsaf bwmpio? Mae hyn yn bosibilrwydd.

Rwyf wedi bod mewn cysylltiad ffon efo Catrin Jones, Rheolwr Carthffosydd Dwr Cymru bore 'ma i holi lle y maent arni. Ydi'r gwaith CCTV wedi darganfod unrhyw ddwr wyneb yn dod i mewn? Oes yna gynllun i'w dynnu allan? Etc. Mi oedd am ddod yn ol ataf, ond mi oedd yn well fy mod yn cysylltu yn ol a chi heddiw.

Llofnod…….Cadeirydd 23.08.22

	Mae gan yr orsaf bwmpio drwydded arllwys gan Cyfoeth Naturiol Cymru – trwydded rhif: CG0188201. At hyn dwi'n gweld o safle we y Rivers Trust fod yr orsaf wedi arllwys 28 gwaith yn 2020 a hynny am gyfanswm o 68 awr. Bydd y wybodaeth ar y safle we yma wedi dod o Dwr Cymru. Er efallai fod hyn yn swnio'n llawer, mae'n well na llawer lle arall sydd angen sylw. *Roeddwn wedi bod yn meddwl am yr angen am audit o arllwysiadau'r orsaf bwmpio fel modd o gael gwelliannau a syrfe CCTV. Gan fod y waith CCTV wedi ei wneud penderfynnais ddal arni efo gwneud yr audit. At hyn mae yna flaenoriaethau o ran waith gorfodaeth, a safleoedd eraill sydd yn uwch ar fy rhestr waith. Gai weld be gai yn ol gan Dwr Cymru yn y dyfodol agos.* *Beth petae yna ddim arian yn y tymor byr ar gyfer gwelliannau? Wel, hwyrach eich bod yn ymwybodol fod cwmniau dwr Cymru a Lloegr yn cynllunio eu waith buddsoddi dros gyfnod o 5 mlynedd ar y waith unol a'r gwariant mae OFWAT yn ganiatau iddynt. Gelwir hyn yn AMP, neu Asset Management Plan / Planning.* *Rydwyf wedi bod yn rhoi rhestr o safleoedd at eu gilydd yn yr wythnosau diwethaf lle y dymunwn weld buddsoddiad gan Dwr Cymru ar gyfer y cyfnod AMP 2025 – 2030. Mae Talwrn ar y rhestr dwi wedi ei waith I mewn. Bydd yr holl restr ar draws Cymru yn cael ei drafod gyda Dwr Cymru, y waith yna'n cael ei amcan brisio, y cynllun yn cael ei roi allan fel ymghynghoriad cyhoeddus, ac yna ei gytuno gyda OFWAT.* *Mae arllwysiadau storm fel y safle yma yn edrych fel petaent yn mynd I fod yn uchel ar yr agenda ar gyfer y cynllun gwariant ar gyfer 2025 ymlaen. Ond gallasai rheolaeth OFWAT ar y gwariant, a'r waith o flaenoriaethu dros Gymru weithio yn erbyn cael waith wedi ei wneud. Ond, mae'r arllwysiad I Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, felly gobeithio y bydd yn waith yn uwch yn y waith blaenoriaethu.* *Gobeithiaf fod hyn o gymorth, a dof yn ol atoch pan glywaf unrhyw beth ymhellach.*
	Llofnod…….Cadeirydd 23.08.22

4.4	**Mynwent Llanddyfnan (tap)** – Mae'r Clerc yn disgwyl am blymwr i gwneud y gwaith
4.5	**Yr Heddlu (mynychu Cyfarfodydd)** – Gwahoddwyd yr heddlu eto I fynychu'r cyfarfod hwn ond ni wnaethant fynychu.
4.6	**Tyfiant Maes y Coed – Bodlondeb –** Mae'r Adran Priffyrdd am edrych ar y safle wythnos yma a cymeryd camau gorfodaeth disgw angen.
4.7	**Llwybrau Cyhoeddus –** Mae Cyng E Williams wedi dechrau cerdded y llwybrau troed. Pan fydd wedi'I gwblhau, bydd yn paratoi adroddiad I'r Clerc yn manylu ar y disgw sydd angen ei wneud.
4.8	**Enwau lleoedd Cymraeg –** Cylch yr Iaith – Cytunwyd I gefnogi eu llythyr at Lywodraeth Cymru I barhau I ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	**Gordyfiant Talwrn** – gweler 4.6
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Dwr Cymru** – gweler 4.3
6.2	**Cyfoeth Naturiol Cymru** – gweler 4.3
6.3	**Cylch yr Iaith – gweler** - gweler 4.8
6.4	**Archwilio 2021-2022** – Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno I archwilio'r cyfrifon am yr un pris â'r llynedd. Cytunwyd I dderbyn eu cynnig
6.5	**Unllais Cymru** – Mae'r Clerc wedi derbyn hysbysiad gan Unllais Cymru yn dweud bod disgwyl I Glercod gyhoeddi adroddiad blynyddol o weithgareddau'r cyngor yn dechrau o 2021-2022. Disgwylir I glercod hefyd sefydlu cynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer pob aelod
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd I dalu'r canlynol:
7.1	R Mills, Daughter and Son £234.00
7.2	Aelodaeth Unllais Cymru £177.00
	Llofnod…….Cadeirydd 23.08.22

8	**MATERION ERAILL**
8.1	Gor-yrru Llangwyllog – Mae'r Adran Briffyrdd eisoes yn ymwybodol o oryrru yn Llangwyllog. Cytunwyd gofyn iddynt fonitro'r goryrru.
8.2	Tyllau yn y Ffordd (Half Way, Talwrn). Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at yr Adran Briffyrdd
8.3	Lon Ceint - I'w drafod yn y cyfarfod nesaf
8.4	Glascoed – I'w drafod yn y cyfarfod nesaf
8.5	Cais am palmant, Talwrn – I'w drafod yn y cyfarfod nesaf
8.6	Gor-yrru Talwrn – Cytunwyd i dynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda
8.7	Ymddiheurodd y Cynghorwyr C McGregor a D Pritchard am fethu'r dyddiad cau i gael eu henwebu ar gyfer etholiadau Mai 5ed. Ni fydd y Cynghorydd W Vaughan yn sefyll ar gyfer yr etholiad. Diolchodd y Cyng A Williams iddo am ei waith dros y blynyddoedd.
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 23.08.22